

City & Guilds Dilyniant mewn Gosod Brics Lefel 2



Yn gwyno

Yn ystod y cwrs Lefel Cynnydd mewn Gosod Brics, byddwch yn astudio cyfuniad o unedau adeiladu ymarferol a damcaniaethol yn canolbwyntio ar osod brics, gan eich helpu i ddatblygu eich sgiliau ymhellach ar gyfer gyrfa yn y diwydiant adeiladu.

Dyma'r cwrs i chi os...

- ... Rhai sydd â diddordeb brwd mewn adeiladu
- ... Rhai sy'n dyheu am yrfa fel gosodwr brics cymwys
- ... Rhai sy'n hoffi cymysgedd o astudio ymarferol a gwybodaeth ddamcaniaethol

Beth fyddaf yn ei wneud?

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Yn ystod y cwrs Gosod Brics lefel cynnydd, byddwch yn astudio unedau adeiladu ymarferol a damcaniaethol yn cynnwys:

Egwyddorion adeiladu adeiladau, gwybodaeth a chyfathrebu
Adeiladu waliau solet, pileri sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain a phileri cysylltiedig
Dehongli lluniadau gweithio er mwyn gosod strwythurau gwaith maen
Adeiladu waliau ceudod sy'n ffurfio strwythurau gwaith maen
Cynhyrchu gwaith maen uniad tenau a chladin gwaith maen

Byddwch yn treulio amser yn ein gweithdai ymroddedig sydd â chyfarpar da a byddwch yn cael eich asesu trwy brosiectau ymarferol a phrofion ysgrifenedig ac ar-lein. Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, byddwch yn ennill y cymwysterau canlynol:

Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Brics
Cymwysterau ategol priodol er mwyn ehangu eich set sgiliau a bodloni anghenion y diwydiant

[Gweithgareddau Sgiliau](#)

[Mathemateg a Saesneg](#)

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Er mwyn gwneud cais, byddwch angen Lefel 2 (Sylfaen) mewn Gosod Brics a naill ai TGAU Mathemateg/Rhifedd Mathemateg neu Gymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg Gradd C neu uwch.

Mae'n rhaid i chi fod ag awydd i weithio yn y diwydiant adeiladu. Mae angen ymrwymiad llawn i bresenoldeb, yn ogystal â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd am y pwnc a'r gallu i gymell eich hun. Byddwch yn cael eich asesu yn barhaus ac mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Ar ôl cwblhau'r cwrs Lefel Cynnydd mewn Gosod Brics, gallwch symud ymlaen i Ddiploma Lefel 3 mewn Gosod Brics, Prentisiaeth, neu ddod o hyd i waith yn y diwydiant adeiladu.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd angen i chi brynu Offer Amddiffynnol Personol (PPE) addas a fydd yn costio tua £40.00,



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

yn ogystal â'ch offer ysgrifennu eich hun.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

